Introduction

If you would like to move gradually into retirement by reducing the hours you work or by moving to a job with fewer responsibilities on a lower grade then it's possible that you may wish to consider retiring on the grounds of Flexible Retirement.

What is Flexible Retirement?

Under Flexible Retirement, if you reduce your working hours in your present job, or move to a job with a lower grade, it's possible for you to receive all the pension benefits you have built up to the date your hours or grade changed, and continue to work in your job with fewer hours or at a lower grade, and still receive a salary.

Who can retire with Flexible Retirement?

Flexible Retirement is an option available to members who meet all of the following criteria:

- Are age **55*** or over;
- Have at least 3 months membership in the scheme (**or** have brought a transfer in from another scheme);
- Have their employer's consent to retire with flexible retirement;
- Have their employer's consent to reduce hours or change to a job on a lower grade.

Each employer in the Local Government Pension Scheme has to have a policy which specifies whether or not they allow employees to flexibly retire.

You should contact your employer's Personnel Department to find out more about their policy on flexible retirement.

* Age 50 if the member was in the scheme on 31/03/08 or earlier, has been in continuous employment with the same employer since then and retires with flexible retirement before 31/03/2010.

Will my pension be reduced if I take Flexible Retirement before age 65

When retiring on Flexible Retirement, the pension and lump sum retirement grant received will be based on the membership you have accrued up to the date of changing your hours or grade.

If you joined the Local Government Pension Scheme after 30 September 2006 and you retire with flexible retirement before age 65, your pension and lump sum will be reduced as the benefits will be paid early.

If you joined the scheme on or before 30 September 2006, and you are a 'protected member' (under the protections put in place due to the removal of the 85 year rule) then it's possible that some or all of your benefits paid early could be protected from the reduction.

Whether you are a 'protected member' or not your employer may determine not to apply all or part of any reduction; this is at your employer's discretion.

Can I pay pension contributions in the job that's continuing?

Yes, you can pay pension contributions in the job that's continuing so that you build up further benefits in the scheme for when you fully retire.

If you are a 'protected member' when you retire with flexible retirement, the protection will not apply when calculating the pension benefits in respect of your membership in the job that's continuing.

You may wish to take this into consideration if you intend to retire fully before age 65.

Contact Us

This leaflet gives general guidance only, for more information please contact:

Tel: 01597 826 737
Fax: 01597 826 290
Email: pensions@powys.gov.uk

Pensions Section, Powys County Council, PO Box 71,
Llandrindod Wells, Powys. LD1 9AQ

CRONFEYDD PENSIWN CYMRU

ffeithlen



ffeithlen rhif. 8

Ymddeoliad Hyblyg

Cyflwyniad

Os y buasech yn hoffi symud yn raddol i ymddeoliad trwy leihau yr oriau yr ydych yn eu gweithio neu trwy symyd i swydd gyda llai o gyfrifoldebau ar raddfa is yna mae'n bosib yr hoffech ystyried ymddeol ar sail Ymddeoliad Hyblyg.

Beth yw Ymddeoliad Hyblyg?

O dan Ymddeoliad Hyblyg, os ydych yn lleihau eich oriau gwaith yn eich swydd bresennol, neu symud i swydd ar raddfa is, mae'n bosib i chi dderbyn yr holl fuddion pensiwn yr ydych wedi eu crynhoi hyd y dyddiad y newidiodd eich oriau neu eich graddfa, a pharhau i weithio yn eich gwaith ar oriau llai neu raddfa is a pharhau i dderbyn eich cyflog.

Pwy sy'n gallu ymddeol gydag Ymddeoliad

Mae Ymddeoliad Hyblyg yn ddewis sydd ar gael i aelodau sy'n diwallu y cyfan o'r criteria canlynol:

- Oedran **55*** neu drosodd
- Yn berchen ar o leiaf 3 mis o aelodaeth yn y cynllun (**neu** gyda throsglwyddiad i mewn o gynllun arall);
- Wedi derbyn caniatâd cyflogwr i ymddeol gydag ymddeoliad hyblyg;
- Wedi derbyn caniatâd cyflogwr i leihau oriau neu i newid i swydd ar raddfa is.

Mae'n rhaid i bob cyflogwr yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gael polisi sy'n nodi pa un ai a ydynt yn caniatau ymddeoliad hyblyg i weithwyr .

Dylech gysylltu ag Adran Personel eich cyflogwr i ddarganfod rhagor am eu polisi ynglŷn ag ymddeoliad hyblyg

***** 50 mlwydd oed os yw aelod wedi bod yn y cynllun ar 31/03/08 neu gynt, wedi bod mewn cyflogaeth barhaol gyda'r un cyflogwr ers hynny ac yn ymddeol gydag ymddeoliad hyblyg cyn 31/03/2010.

A fydd fy mhensiwn yn cael ei leihau os byddaf yn cymryd Ymddeoliad Hyblyg cyn 65 mlwydd

Pan yn ymddeol ar Ymddeoliad Hyblyg, fe seilir y pensiwn a'r lwmp swm grant ymddeoliad a dderbynir ar yr aelodaeth a grynhowyd gennych hyd at ddyddiad newid eich oriau neu eich graddfa

Os ymunoch â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ôl 30 Medi 2006 ac eich bod yn ymddeol gydag ymddeoliad hyblyg cyn eich bod yn 65 mlwydd oed fe fydd eich pensiwn a'ch lwmp swm yn cael eu lleihau oherwydd y bydd y buddion yn cael eu talu yn gynnar.

Os ydych wedi ymuno â'r cynllun ar neu cyn 30 Medi 2006 ac eich bod yn 'aelod gwarchodedig' (yn unol â'r diogelau a roddwyd mewn lle oherwydd diddymiad y rheol 85 mlynedd) yna mae'n bosib y gallai peth neu'r cyfan o'ch buddion a dalwyd yn gynnar gael eu diogelu rhag gostyngiad

Pa un ai a ydych yn 'aelod gwarchodedig' ai peidio, gall eich cyflogwr benderfynu peidio â gosod y cyfan neu rhan o unrhyw leihad, mae hyn ar ddisgresiwn eich cyflogwr.

A allaf dalu cyfraniadau pensiwn mewn swydd sy'n parhau?

Gallwch, fe allwch dalu cyfraniadau pensiwn mewn swydd sy'n parhau fel y gallwch grynhoi buddion pellach yn y cynllun erbyn yr adeg y byddwch yn ymddeol yn gyfan gwbl.

Os ydych yn 'aelod gwarchodedig' pan yn ymddeol gydag ymddeoliad hyblyg, ni fydd y gwarchodiad yn sefyll pan yn cyfrifo eich buddion pensiwn yn nhermau eich aelodaeth yn y swydd sy'n parhau.

Efallai y buasech yn dymuno ystyried hyn os ydych yn bwriadu ymddeol yn gyfan gwbl cyn 65 mlwydd oed.

Cysylltwch â ni

Rhoi arweiniad cyffredinol yn unig yw bwriad y daflen hon, am ragor o fanylion cysylltwch â :

Ffôn: 01597 826 737
Facs: 01597 826 290
E-bost: pensions@powys.gov.uk

Adain Pensiynau, Cyngor Sir Powys, PO Box 71, Llandrindod Wells, Powys. LD1 9AQ

lgps

ALL WALES PENSION FUNDS

factsheet

factsheet no. 8

Flexible Retirement